Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Local TV Limited

## Cais am newid ymrwymiadau rhaglennu

**DATGANIAD**

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mai 2022

# 1. Trosolwg

Mae pob trwydded teledu lleol yn cynnwys ymrwymiadau rhaglennu sy'n disgrifio'r gwasanaeth trwyddedig y mae'n ofynnol i'r trwyddedai ei ddarparu. Mae'r ymrwymiadau'n canolbwyntio'n benodol ar faint a math y cynnwys lleol a gaiff ei ddarlledu ar y gwasanaeth er mwyn adlewyrchu anghenion a buddiannau'r ardal leol. Mae'r ymrwymiadau a nodir mewn trwyddedau teledu lleol yn adlewyrchu cynigion a gyflwynwyd gan y trwyddedai wrth wneud cais am drwyddedau, a ddyfernir gan Ofcom gan roi ystyriaeth i feini prawf statudol penodedig (er y gallai rhai ymrwymiadau fod wedi'u diwygio wedi hynny gyda chydsyniad gan Ofcom).

Mae Local TV Limited wedi gwneud cais i Ofcom am newid rhai o'r ymrwymiadau rhaglennu mewn saith o'i drwyddedau, fel a ganlyn: Birmingham, Bryste, Caerdydd, Leeds, Lerpwl, Middlesbrough (Teesside TV) a Newcastle (Tyne and Wear TV). Gan y byddai'r newidiadau arfaethedig yn gyfystyr â gwyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth, roedd y cais yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

### Ein penderfyniad – yn gryno

Mae'r ddogfen hon yn nodi penderfyniad Ofcom ar gais Local TV Limited am newidiadau i'w ymrwymiadau rhaglennu.

A ninnau wedi ymgynghori ar y cais hwn ac ystyried yn ofalus y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr ynghylch y Farn Gychwynnol a nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae Ofcom wedi penderfynu cymeradwyo'r cais i ddiwygio ymrwymiadau rhaglennu'r saith trwydded dan sylw.

Bydd hyn yn golygu nifer o newidiadau i'r ymrwymiadau rhaglennu ar gyfer y gwasanaethau trwyddedig, fel y nodir yn Atodiad 1. Nodir ein rhesymu dros gymeradwyo'r cais hwn yn y ddogfen lawn.

Gall y gostyngiadau hyn gael eu gweithredu gan Local TV Limited o ddyddiad heddiw.

# 2. Manylion a gwybodaeth gefndir

2.1 Ofcom yw'r corff sy'n gyfrifol am drwyddedu gwasanaethau teledu digidol lleol ("gwasanaethau teledu lleol") yn y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau teledu lleol yn gweithredu mewn 34 o leoliadau ar draws y wlad. Mae ein pwerau a'n dyletswyddau wrth arfer y swyddogaeth hon wedi'u cynnwys yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Darlledu 1996, fel y'i haddaswyd gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Digidol Lleol 2012.

2.2 Mae'r drwydded ar gyfer pob gwasanaeth teledu lleol yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau rhaglennu, sy'n disgrifio math a maint y rhaglennu sy'n berthnasol yn lleol y mae'n ofynnol i'r trwyddedeion ei ddarparu. Mae'r ymrwymiadau wedi'u cynnwys yn yr atodiad i bob trwydded Gwasanaeth Rhaglenni Teledu Digidol Lleol ("L-DTPS).

2.3 Gall trwyddedeion wneud ceisiadau i Ofcom am newid eu hymrwymiadau rhaglennu yn unol ag amodau eu trwydded. Yn ei dro, bydd Ofcom yn ystyried y fath geisiadau yn unol â'r meini prawf statudol, fel y disgrifir isod.

2.4 Yn yr adran hon, rydym yn nodi:

a) y fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i ystyriaeth Ofcom o newidiadau i ymrwymiadau rhaglennu mewn trwyddedau L-DTPS; a

b) throsolwg o'r newidiadau y gofynnir amdanynt gan Local TV Limited ("y Cais am Amrywiad”).

## Fframwaith Cyfreithiol

2.5 Mae adran 19(3A)(c) Deddf Darlledu 1996 (y "Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynnwys amodau mewn trwyddedau L-DTPS er mwyn sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth trwyddedig, fel y'i cynigir gan ddeiliad y drwydded wrth wneud y cais am y drwydded honno, yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y drwydded.

2.6 Felly, rydym wedi cynnwys gofyniad yn amod 5(1) pob trwydded L-DTPS fod yn rhaid i'r trwyddedai gynnal cymeriad y gwasanaeth trwyddedig trwy gydol y drwydded yn unol â'r ymrwymiadau rhaglennu a nodir yn y drwydded.

2.7 Cyfyngir ar yr amgylchiadau lle y gallwn ganiatáu newid cymeriad y gwasanaeth trwyddedig gan adran 19(3B) y Ddeddf. O ganlyniad, mae amod 5(2) yr holl drwyddedau L-DTPS yn darparu y gall Ofcom, gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn y Ddeddf, roi cydsyniad i wyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth trwyddedig ddim ond os yw'n fodlon:

a) na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth trwyddedig yn sylweddol;

b) na fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer;

c) na fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir yn yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer; ac y

d) byddai'r gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal neu'r ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer.

2.8 Cyn penderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i wyriad oddi wrth gymeriad gwasanaeth trwyddedig ar unrhyw un o'r seiliau a nodir uchod, mae adran 19(3C) y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyhoeddi hysbysiad sy'n nodi:

a) y gwyriad arfaethedig; a

b) y cyfnod pan ellir cyflwyno sylwadau i Ofcom ynghylch y cynnig. Mae'n rhaid i'r cyfnod hwn ddod i ben ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad hwn.

## Y Ceisiadau am Amrywiad

2.9 Mae'r newidiadau meintiol (h.y. y rhai sy'n ymwneud â 'chwotâu' bob awr yn hytrach nag adran 'allbwn rhaglennu' ansoddol yr ymrwymiadau rhaglennu) y gofynnwyd amdanynt gan Local TV Limited ar gyfer pob un o'r saith trwydded wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| | Newidiadau i raglennu lleol yr wythnos (Darllediadau tro cyntaf) | Newidiadau i raglennu lleol yr wythnos (Ailddarllediadau) | Newidiadau i oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol yr wythnos (Darllediadau tro cyntaf) | Newidiadau i oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol yr wythnos (Ailddarllediadau) |
|---|---|---|---|---|
| **Birmingham** | **Presennol:** 35 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 20 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 10.5 awr | **Presennol:** 3 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 1 awr |
| **Bryste** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 8 awr | **Presennol:** 1 awr |
| **Caerdydd** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Dd/B** | **Dd/B** |
| **Leeds** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Dd/B** | **Dd/B** |
| **Lerpwl** | **Presennol:** 35 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 10 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 8 awr | **Presennol:** 7 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 1 awr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Middlesbrough** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 12 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 8 awr | **Presennol:** 2 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 1 awr |
| **Newcastle** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 2 awr | **Dd/B** | **Dd/B** |

2.10 At hynny, mae Local TV Limited wedi cynnig rhai diwygiadau i adran "allbwn rhaglennu" ansoddol pob un o'r ymrwymiadau rhaglennu. Ceir fersiwn nad yw'n gyfrinachol o cais Cardiff TV am amrywiad yn Atodiad A1.

2.11 Roedd Ofcom o'r farn y byddai'r diwygiadau y gofynnir amdanynt yn y ceisiadau am amrywiad, ym mhob achos, yn gyfystyr â gwyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth. Effaith y ceisiadau yw lleihau maint y rhaglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf (gan gynnwys rhaglenni newyddion a materion cyfoes lleol), a allai arwain at ddarlledu mwy o gynnwys nad yw'n lleol ar y gwasanaeth ac felly newid 'cymeriad y gwasanaeth.' Fel y nodir uchod, o ganlyniad bu i Ofcom gyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn am y ceisiadau am amrywiad, gan nodi ein barn gychwynnol (sef ein bod yn bwriadu derbyn y ceisiadau, am y rhesymau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am bedair wythnos, ac fe ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2022.

2.12 Mae Ofcom wedi ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn cyn dod i benderfyniad terfynol. Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau a'r sail resymegol y tu ôl iddynt.

# 3. Ystyriaeth o'r Ceisiadau am Amrywiad

3.1 Derbyniodd Ofcom un ymateb i'r ymgynghoriad, a fu'n anghytuno â barn gychwynnol Ofcom i gymeradwyo'r cais. Roedd hwn gan unigolyn a ddymunai fod yn ddienw. Ystyriwyd barn yr ymatebydd yn ofalus yn ein proses benderfynu derfynol.

3.2 Wrth ystyried y ceisiadau gan Local TV Limited, bûm yn ymwybodol o effaith gronnus y gwahanol newidiadau a nodir yn y ceisiadau am amrywiad, ynghyd â'r ymrwymiadau gwreiddiol a gynigiwyd gan y trwyddedai perthnasol pan ddyfarnwyd y trwyddedau am y tro cyntaf.

3.3 Rhoddwyd sylw hefyd i'n datganiad ym mis Mai 2012 a nododd sut yr oeddem yn bwriadu arfer ein pwerau a'n dyletswyddau i drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd. Mae'n amlinellu ein hisafswm disgwyliad ar gyfer darlledu darpariaeth newyddion lleol, sef "y byddem yn annhebygol o ystyried bod llai na saith awr i gyd o newyddion darlledu yr wythnos yn ormod o faich i hyd yn oed y trwyddedai L-DTPS lleiaf..." (tudalen 5, adran 1.47).

3.4 Rhoddwyd sylw i'r datganiad hwn wrth ystyried y ceisiadau sy'n ymwneud â'r gostyngiadau arfaethedig mewn rhaglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf. Yn ei geisiadau, gofynnodd Local TV Limited am ostwng ei ymrwymiad i raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf 43% ar gyfer gwasanaethau Bryste, Caerdydd, Leeds, Middlesbrough a Newcastle, a gostyngiad ychydig yn llai o 40% ar gyfer gwasanaethau Birmingham a Lerpwl (gan fod eu hymrwymiadau presennol ychydig yn uwch).

3.5 Bu i ni nodi hefyd, mewn perthynas â rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol a ddarlledir am y tro cyntaf, fod y ceisiadau ar gyfer gwasanaethau Lerpwl a Middlesbrough eisiau gostwng hyn i wyth awr yr wythnos, ac i 10.5 awr yr wythnos ar gyfer gwasanaeth Birmingham. Ni chynigiwyd unrhyw newid ar gyfer gwasanaethau Bryste, Caerdydd, Leeds na Newcastle, a fydd yn parhau ar wyth awr yr wythnos.

## Crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad

3.6 Dywedodd yr ymatebydd y byddai'r newidiadau'n cynrychioli "gwanhad sylweddol o'r ymrwymiadau a roddwyd gan y cwmni yn ei geisiadau am drwyddedau" ac y byddai'n effeithio ar faint ac ansawdd cynnwys lleol, credir mai uchelgais Local TV Limited yw creu rhwydwaith cenedlaethol drwy leihau ei oriau rhaglennu lleol."

3.7 Honnodd yr ymatebydd hefyd fod "gorsafoedd teledu lleol eraill, megis KMTV, yn darparu nifer uchel o raglenni ansawdd uchel yn gyson ac yn adeiladu busnes llwyddiannus," gan ddadlau "Mae model cynaliadwy, llwyddiannus a phoblogaidd ar gyfer teledu lleol, os nad yw teledu lleol am gyflawni ar y sail hon, yna dylid rhoi'r trwyddedau i eraill gyflawni'r nod hwn."

3.8 Codwyd pwyntiau eraill gan yr ymatebydd sydd y tu hwnt i gylch gwaith Ofcom.

# 4. Penderfyniad Ofcom

4.1 Ym marn Ofcom, er y byddai'r amrywiadau a gynigir gan Local TV Limited yn gwyro oddi wrth gymeriad pob un o'r gwasanaethau trwyddedig, ym mhob achos byddai'r gwyriad yn bodloni'r meini prawf o dan adran 19(3B) y Ddeddf, ac Amod 5(c) y Drwydded, sef y byddai'r gwyriad yn:

a) peidio â newid cymeriad y gwasanaeth trwyddedig yn sylweddol;

b) peidio ag arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer;

c) peidio ag arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir yn yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer; ac yn

d) parhau i ddiwallu anghenion yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer.

4.2 Gan hynny, ar ôl cyhoeddi hysbysiad o'r amrywiadau arfaethedig yn unol ag adran 19(3C) y Ddeddf ac adolygu'r holl sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad, mae Ofcom wedi penderfynu cydsynio i'r amrywiadau a gynigiwyd gan Local TV Limited. Bydd yr adran hon yn esbonio'r sail resymegol dros ein penderfyniad yn erbyn pob un o'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf.

## Sail (a): ni fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol

4.3 Yn ei gynnig, dadleuodd Local TV Limited:

- ei fod yn ymrwymedig i wasanaethu cynulleidfaoedd lleol, gan gynnwys newyddion, chwaraeon ac adloniant o fewn yr ardal leol. Bydd yn parhau â'i strwythur o newyddion, chwaraeon ac adloniant lleol parhaus, felly ni fydd cymeriad y gwasanaeth ar draws y trwyddedau'n newid yn sylweddol; a
- gall cynulleidfaoedd ddisgwyl cymaint o gynnwys lleol ag y maent wedi'i gael erioed, gyda chynnwys yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well drwy fwy o hyblygrwydd o fewn yr amserlen.

4.4 Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymateb a dderbyniwyd, rydym yn parhau o'r farn, fel y nodwyd yn ein barn gychwynnol yn y ddogfen ymgynghori, y byddai maint y rhaglennu lleol y mae'n ofynnol i bob gwasanaeth ei ddarparu yn ddigon mawr o hyd i ddarparu'r isafswm cynnwys lleol disgwyliedig fel y'i mynegir yn ein datganiad o fis Mai 2012, ac y byddai ymrwymiad o hyd ym mhob trwydded i ddarparu newyddion a materion cyfoes lleol a ddarlledir am y tro cyntaf.

4.5 O ran pob gwasanaeth, roeddem o'r farn na fyddai'r rhan fwyaf o wylwyr yn debygol o nodi unrhyw newid sylweddol i'r gwasanaeth. Byddai'r cynigion yn dal i ymrwymo'r trwyddedai i ddarlledu cyfran sylweddol o'i raglennu lleol yn yr oriau brig, gan gynnal cymeriad gwasanaethau'r holl drwyddedau. Er y byddai cyfanswm y rhaglennu lleol a ddarlledir am y

tro cyntaf yn cael ei ostwng, rydym yn cydnabod y byddai natur ailadroddus yr allbwn rhaglennu hefyd yn gostwng, gan arwain at gynnig newyddion a materion cyfoes o ansawdd gwell i wylwyr yn y lle cyntaf.

4.6 Nodwn fod Local TV Limited wedi cynnig gostyngiadau o fwy na 50% yn ei ymrwymiad i ddangos ailddarllediadau o gynnwys lleol. Er i ni gydnabod bod cynnwys ailddarlledu'n caniatáu i wylwyr 'ddal i fyny' ar y cynnwys lleol a ddarperir gan y gwasanaethau trwyddedig, a bod gan y fath gynnwys rôl felly wrth ddiffinio cymeriad pob sianel o'r gwasanaeth, mae hyn yn debygol o fod yn llai pwysig a chael llai o effaith na sicrhau maint derbyniol o raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf. Felly, roeddem o'r farn na fyddai'r gostyngiad arfaethedig hwn mewn ailddarllediadau yn gwyriad sylweddol oddi wrth gymeriad y gwasanaethau trwyddedig.

4.7 Yn ein barn ni, mae sicrhau swm derbyniol o raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf, yn ystod oriau brig ac ar draws y gwasanaeth yn gyffredinol, yn chwarae rhan bwysig yng nghymeriad y gwasanaeth, gyda llai o bwyslais yn cael ei roi ar ailddarllediadau.

4.8 Ar y sail honno, roedd yn ymddangos i Ofcom na fyddai'r newidiadau a oedd wedi'u cynnwys yn y Cais am Amrywiad yn newid cymeriad pob un o'r gwasanaethau'n sylweddol.

## Sail (b): ni fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer

4.9 Rydym yn cydnabod bod nifer (ac o bosib yr amrywiaeth) o raglenni a wneir am bob un o'r ardaloedd a wasanaethir gan y trwyddedau sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn yn debygol o gael eu gostwng os caiff y newidiadau hyn eu cymeradwyo, ond nid oeddem yn credu y byddai'r gostyngiadau hyn yn annerbyniol o ystyried bod yr holl wasanaethau wedi ymrwymo i barhau i ddangos cynnwys lleol, gan gynnwys newyddion, chwaraeon ac adloniant lleol o fewn yr ardaloedd lleol a byddai'n ofynnol o hyd iddynt ddarparu 21 awr yr wythnos o raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf (y bydd o leiaf wyth[1] ohonynt yn newyddion a materion cyfoes lleol).

4.10 Nid oeddem o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig i adran allbwn rhaglennu ansoddol yr ymrwymiadau rhaglennu ym mhob trwydded ynddynt eu hunain yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal leol. Er i ni nodi y cynigir dileu ymrwymiad penodol y "Caiff grwpiau crefyddol eu dangos yn rheolaidd ar draws newyddion ac adloniant" o drwydded Lerpwl, roeddem o'r farn bod cyfranogiad o'r fath yn debygol o barhau ar ryw ffurf gan y bydd yn ofynnol o hyd i'r gwasanaeth "adlewyrchu bywyd yn yr ardal a drwyddedir a'r cylch, ac amrywiaeth y gymuned".

4.11 Er i ni dderbyn pwynt yr ymatebydd bod cais Local TV Limited, ar yr wyneb, yn gwanhau ei ymrwymiadau, rydym yn nodi bod y newidiadau'n berthnasol yn bennaf i ailddarllediadau

[1] 10.5 awr, yn achos gwasanaeth Birmingham.

Local TV Limited ac felly'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar yr ystod o raglennu lleol sydd ar gael.

4.12 Gan hynny, mae Ofcom yn fodlon na fydd y gwyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglennu a wneir am yr ardal neu leoliad y mae pob un o'r gwasanaethau wedi'i drwyddedu ar eu cyfer.

## Sail (c): ni fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir yn yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer

4.13 Am y rhesymau a amlygwyd yn yr adran uchod, er i ni gydnabod y gallai nifer ac amrywiaeth y rhaglenni ostwng o ganlyniad i'r newidiadau y gofynnir amdanynt, roeddem yn fodlon na fyddai unrhyw ostyngiad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir ym mhob ardal. Crëir yr holl raglenni a wneir at ddiben darlledu ar wasanaeth penodol o fewn ardal drwyddedig y gwasanaeth; ni fwriedir i'r cais am amrywiad hwn newid y rhinwedd hon.

## sail (d): byddai'r gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal neu'r ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer

4.14 Dadleuodd Local TV y byddai'r holl wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal y maent yn ei gwasanaethu. Dywed Local TV Limited y bydd yn parhau i roi llais i gynulleidfaoedd lleol ar storïau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd yn parhau i gynnwys newyddion, chwaraeon ac adloniant lleol, gan ganolbwyntio ar faterion sy'n bwysig i'r cymunedau lleol.

4.15 Am y rhesymau oll a nodir uchod, roeddem yn fodlon y byddai pob gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal neu leoliad. Yn benodol, roeddem yn ystyried y bydd y newidiadau y gofynnir amdanynt yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r trwyddedai ddarparu'r ffocws angenrheidiol ar y cynnwys lleol y mae gwylwyr yn ei gael yn fwyaf gwerthfawr.

## Penderfyniadau Ofcom ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i'r gwyriad oddi wrth y gwasanaethau trwyddedig

4.16 Am y rhesymau a restrir uchod, mae Ofcom yn rhoi cydsyniad i'r cynigion a gyflwynwyd gan Local TV Limited.

# A1. Ymrwymiadau rhaglennu diwygiedig ar gyfer Local TV Limited

| **Ymrwymiadau Rhaglennu ar gyfer Cardiff TV - Yr hyn a gynigiwyd** | |
|---|---|
| **Allbwn rhaglennu** | ~~Bydd gan amserlen raglennu'r gwasanaeth ffocws lleol.~~<br><br>~~Bydd y gwasanaeth yn cynnwys cymysgedd o gynnwys lleol yn unig gyda chymysgedd o raglenni diddordeb cyffredinol "a gynhyrchir yn lleol" a chynnwys a gaffaelwyd sy'n cyd-fynd ag arddull ffordd o fyw a gwybodaeth y gwasanaeth.~~<br><br>~~Ar lefel leol bydd newyddion, materion cyfoes, adloniant lleol a chwaraeon yn rhan amlwg o'r gwasanaeth.~~<br><br>~~Bydd y gwasanaeth yn darparu ar gyfer y gynulleidfa leol drwy gynnwys bwletinau newyddion lleol rheolaidd, gyda chyfartaledd o 25 o fwletinau newyddion lleol a beth sydd ymlaen yn lleol 90 eiliad bob dydd a ffrwd rheolaidd o raglenni llenwi i mewn lleol gan gynnwys canllawiau digwyddiadau a llais y werin.~~<br><br>~~Bydd canllawiau digwyddiadau lleol a sbotiau llais y werin yn cael eu ffilmio o bryd i'w gilydd a'u darlledu yn ystod y dydd.~~<br><br>~~Bydd allbwn y gwasanaeth yn cefnogi busnesau lleol drwy ddarparu llwyfan fforddiadwy ar gyfer hysbysebu.~~<br><br>~~Bydd cynnwys sy'n benodol i'r ardal leol yn cyfrif am tua 40% o'r amserlen, bydd rhaglennu a rennir gyda thrwyddedeion L-DTPS eraill yn cyfrannu tua 15% a bydd gweddill yr amser awyr yn gyfuniad o gaffaeliadau a chynnwys masnachol.~~<br><br>~~Bydd rhaglennu a ddarlledir am y tro cyntaf yn cynnwys 2 awr o'r amserlen gyda'r hwyr, gyda 7 awr pellach (ailddarllediadau) o gynnwys lleol drwy gydol y dydd.~~<br><br>~~Bydd yr allbwn rhaglenni'n cynnwys y pynciau canlynol: enwogion, moduro, iechyd, gwella cartrefi, hanes, troseddu, sinema, bwyd, recriwtio, twristiaeth, y cyngor, bywyd nod, barn leol, eiddo, adloniant, personoliaethau lleol, chwaraeon, materion cyfoes, traffig, tywydd, digwyddiadau a newyddion.~~<br><br>Bydd amserlen raglennu'r gwasanaeth yn:<br><br>• Meddu ar ffocws lleol<br><br>• Cynnwys cymysgedd o gynnwys i'r ardal leol yn benodol gyda chymysgedd o raglennu diddordeb cyffredinol "a gynhyrchir yn lleol"<br><br>• Cynnwys bwletinau newyddion rheolaidd trwy gydol y dydd<br><br>• Rhoi llais i bobl leol drwy sbotiau llais y werin rheolaidd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ● Adlewyrchu bywyd yn yr ardal drwyddedig a'r cylch, ac amrywiaeth y gymuned<br><br>● Darparu cymysgedd o gynnwys sy'n ymdrin â phynciau megis y tywydd, chwaraeon lleol, hanes, iechyd, sinema, y cyngor, materion cyfoes, digwyddiadau, traffig, trosedd, barn leol, adloniant a newyddion<br><br>Bydd newyddion, materion cyfoes, adloniant a chwaraeon lleol yn rhan amlwg o'r gwasanaeth. | | |
| **Oriau o raglennu lleol bob dydd/wythnos** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3 ymlaen** |
| **Darllediadau tro cyntaf:** | 37 awr yr wythnos | 37 awr yr wythnos | ~~37 awr yr wythnos~~<br>21 awr yr wythnos |
| **Ailddarllediadau:** | 34 awr yr wythnos | 21 awr yr wythnos | ~~21 awr yr wythnos~~<br>5 awr yr wythnos |
| **Oriau o raglennu lleol bob dydd/wythnos yn yr oriau brig (18.00-22.30)** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3 ymlaen** |
| **Darllediadau tro cyntaf:** | 14 awr yr wythnos | 14 awr yr wythnos | 14 awr yr wythnos |
| **Ailddarllediadau:** | 7 awr yr wythnos | 7 awr yr wythnos | 0 awr yr wythnos |
| **Oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3 ymlaen** |
| **Darllediadau tro cyntaf:** | 8 awr yr wythnos | 8 awr yr wythnos | 8 awr yr wythnos |
| **Ailddarllediadau:** | 5 awr yr wythnos | 4 awr yr wythnos | 1 awr yr wythnos |